TREFN GWASANAETH DERBYN I GYFLAWN AELODAETH

Cyn eu derbyn dylid paratoi'r ymgeiswyr yn drwyadl yn athrawiaethau sylfaenol y ffydd Gristnogol ac yn egwyddorion yr Annibynwyr neu'r Bedyddwyr. Os nad ydynt wedi'u bedyddio, dylid gwneud hynny cyn eu derbyn. Hefyd cyn eu derbyn, dylid cyflwyno enwau'r ymgeiswyr o flaen yr eglwys neu'r Cwrdd Eglwys. Gall yr ymgeiswyr, os dymunant, gyflwyno eu tystiolaeth yn ystod y gwasanaeth. Gwahoddir yr ymgeiswyr i eistedd yn y blaen. Mewn rhai eglwysi, y mae'n arfer cyflwyno Beibl a/neu dystysgrif aelodaeth i aelodau newydd.

Galwad i Addoli:
Sut y gallaf dalu i'r Arglwydd
am ei holl haelioni tuag ataf?
Dyrchafaf gwpan iachawdwriaeth
a galw ar enw'r Arglwydd.
Talaf fy addunedau i'r Arglwydd
ym mhresenoldeb ei holl bobl.

Salm 116:12–14

Yng ngeiriau'r Ysgrythur... "bydd pob un sy'n galw ar enw'r Arglwydd
yn cael ei achub, pwy bynnag ydyw."

Rhufeiniaid 10:13

Datganiad:
Yn ôl yr Ysgrythurau, Duw sy'n achub yw ein Duw ni. Trwy ei ras cawsom ein dewis yng Nghrist cyn seilio'r byd er gogoniant i'w enw. Trwy ei Ysbryd cawsom ein geni o'r newydd i fod yn blant iddo ef ac yn ddinasyddion ei deyrnas. Y mae parhad yr Eglwys yn dibynnu ar waith yr Ysbryd yn galw pobl, gan roddi iddynt ffydd i gredu yn addewidion Efengyl Duw yn Iesu Grist.

Y mae'r cyfeillion hyn wedi mynegi o'u gwirfodd eu dymuniad i fyw y bywyd Cristionogol a'u hawydd i ymuno â phobl Dduw. Trwy arwydd bedydd cawsant eu cynnwys yn addewidion y cyfamod gras a daethant yn aelodau o deulu'r ffydd. Deuant yn awr o dan arweiniad yr Ysbryd i gyffesu a chadarnhau eu ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist, i gyfamodi â ni yn yr eglwys hon, ac i dderbyn braint a chyfrifoldeb cyflawn aelodaeth o Eglwys Iesu Grist.

Darlleniadau

Gellir dewis o blith y canlynol:
Exodus 20:1–17; Jeremeia 31:31–34; Ioan 15:1–8, 16–17;
Mathew 5:13–16; Luc 9:57–62; Rhufeiniaid 12; 1 Ioan 1.

Yr Addewidion

Gofynned y gweinidog i'r ymgeiswyr godi, a dywed:
Gwrandawn ar dystiolaeth y cyfeillion hyn.

Gall ymgeisydd rannu ei ph/brofiad yn ei g/eiriau ei hun ynglŷn â sut y daeth yn Gristion a pham ei b/fod am ymaelodi â'r Eglwys neu gellir adrodd geiriau y Cyfamod a geir ar gefn Tystysgrif Aelodaeth. Fel arall gellid dilyn un o'r patrymau isod.

Naill ai:
Gofynned y gweinidog iddynt:
A ydych yn cyffesu fod Iesu Grist yn Waredwr ac Arglwydd eich bywyd?
A ydych yn addo ufuddhau i ewyllys Duw a byw yn ôl ei Air tra byddwch byw?
A ydych yn cyfamodi â ni yn yr eglwys hon i gyflawni eich dyletswyddau fel aelodau, ac yn addo dwyn tystiolaeth mewn gair a gweithred i Iesu Grist?

Atebed pob un fesul un: **Ydwyf.**

neu:
Gofynned y gweinidog i'r ymgeiswyr fesul un:
A wyt yn cyffesu fod Iesu Grist yn Waredwr ac Arglwydd dy fywyd?
Ateb: **Ydwyf.**

A wyt yn addo ufuddhau i ewyllys Duw a byw yn ôl ei Air tra byddi byw?
Ateb: **Ydwyf, trwy gymorth Duw.**

A wyt yn cyfamodi â ni yn yr eglwys hon i gyflawni dy ddyletswyddau fel aelod, ac yn addo dwyn tystiolaeth mewn gair a gweithred i Iesu Grist?
Ateb: **Ydwyf, trwy gymorth Duw.**

Dywed y gweinidog wrth y gynulleidfa:
Frodyr a chwiorydd yng Nghrist,
wedi gwrando proffes ffydd y cyfeillion hyn
a'r addunedau a wnaed ganddynt,
gadewch inni sefyll fel arwydd o'n parodrwydd
i'w derbyn i holl freintiau a chyfrifoldeb aelodaeth o'r Eglwys.

Safed y gynulleidfa, a dywed y gweinidog:
Gadewch i ni weddïo drostynt,
a'u cynorthwyo ym mhob ffordd
i dyfu mewn gras
ac yng ngwybodaeth a chariad Duw.

Os dymunir, gellir yma gyd-adrodd un o'r credoau

CREDO'R APOSTOLION

Credaf yn Nuw, y Tad hollalluog,
creawdwr nef a daear.

Credaf yn Iesu Grist, ei unig Fab, ein Harglwydd,
a gaed trwy nerth yr Ysbryd Glân;
a aned o Fair Forwyn.
Dioddefodd dan Pontius Pilat;
fe'i croeshoeliwyd, bu farw ac fe'i claddwyd;
disgynnodd at y meirw.
Atgyfododd y trydydd dydd.
Esgynnodd i'r nefoedd,
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad.
Daw eto i farnu'r byw a'r meirw.

Credaf yn yr Ysbryd Glân,
yr Eglwys lân gatholig,
cymundeb y saint,
maddeuant pechodau,
atgyfodiad y corff,
a'r bywyd tragwyddol. Amen.
(O'r Wythfed Ganrif)

CREDO NICEA-CAERGYSTENNIN

Credwn yn yr un Duw,
y Tad hollalluog,
Creawdwr nef a daear,
pob peth gweledig ac anweledig.

Credwn yn yr un Arglwydd Iesu Grist,
unig Fab Duw,
a genhedlwyd o'r Tad cyn yr holl oesoedd,
Llewyrch o Lewyrch,
Gwir Dduw o Wir Dduw,
wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,
yn un hanfod â'r Tad,
a thrwyddo ef y daeth pob peth i fod;
yr hwn er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth
a ddaeth i lawr o'r nef,
a'i wneud yn gnawd o'r Ysbryd Glân a Mair Forwyn,

ac a gymerodd ffurf ddynol;
yr hwn a groeshoeliwyd hefyd drosom ni dan Pontius Pilat,
a dioddef, a'i gladdu,
ac atgyfodi'r trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau;
yr hwn a esgynnodd i'r nef,
ac sy'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad,
ac a ddaw drachefn mewn gogoniant i farnu'r byw a'r meirw,
ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.

Credwn yn yr Ysbryd Glân, yr Arglwydd, Rhoddwr bywyd,
sy'n deillio o'r Tad [a'r Mab],
yr hwn gyda'r Tad a'r Mab a gydaddolir ac a gydogoneddir,
a'r hwn a lefarodd trwy'r proffwydi.
Credwn yn yr un Eglwys lân, gatholig ac apostolaidd,
cydnabyddwn un bedydd er maddeuant pechodau,
disgwyliwn am atgyfodiad y meirw,
a bywyd yr oes sydd i ddyfod. Amen.
(O'r Bedwaredd Ganrif)

Rhodded y gweinidog ddeheulaw cymdeithas i'r ymgeiswyr fesul un, gan ddatgan:

E…, yn enw ein Harglwydd Iesu Grist derbyniwn di i fod yn gyflawn aelod o'i Eglwys:
"Bydded i'r Arglwydd dy fendithio a'th gadw;
bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnat,
a bod yn drugarog wrthyt;
bydded i'r Arglwydd edrych arnat,
a rhoi i ti heddwch."

Numeri 6:24–26.

Gellid gofyn yn awr i'r ymgeiswyr a'r gynulleidfa adrodd Cyfamod Eglwysig yr eglwys y meant yn dod yn aelodau ohoni neu gellir cyd-adrodd y Cyfamod canlynol:

Cyflwynwn ein hunain i'r Arglwydd,
gan gyfamodi yn ei bresenoldeb ef
i gydgerdded yn ôl ei Air.
Cynorthwyed Duw ni. Amen.

Gweddi:
O Arglwydd Dduw, ein Tad nefol,
unwn yn awr gyda'r Eglwys fawr trwy'r ddaear a'r nef
i ddiolch i ti am dy holl gariad a'th ras.
Diolch i ti am dy Eglwys ac am dy ofal diflino amdani.
Yr wyt yn ei charu â chariad di-ollwng

gan alw i berthyn iddi bobl o bob llwyth ac iaith
trwy'r holl ddaear.

Diolchwn am i ti alw unigolion a theuluoedd i ufudd-dod
i'th orchmynion di,
ac am feithrin had i'th Eglwys.
Am hynny, diolchwn i ti
am bob dylanwad grasol a fu ar y cyfeillion hyn
a dderbyniwyd yn awr i aelodaeth gyflawn o'th Eglwys.
Diolchwn i ti am bob magwraeth ac addysg
a gyfrannodd at eu ffurfiant fel personau.
Molwn di am y gwaith da a ddechreuaist yn eu bywydau
a gweddïwn y bydd iddynt dyfu ym mhob peth i Grist.
Rho iddynt ras i fod yn ffyddlon i'w haddunedau
ac yn deyrngar i'r Efengyl.

Wrth i ni nesáu at Fwrdd yr Arglwydd,
diolchwn am dy ffyddlondeb tuag atom,
cyffeswn ein pechodau
a gofynnwn am dy faddeuant
yn haeddiant yr Arglwydd Iesu Grist. Amen.

Eistedded pawb a dathler y Cymundeb. Os yw'n arferiad lleol, gall y gweinidog rannu'r bara a'r gwin â'r aelodau newydd.

TREFN GWASANAETH DERBYN AELODAU O EGLWYSI ERAILL

Dylid cael cydsyniad yr eglwys cyn derbyn aelodau o eglwysi eraill trwy lythyr. Llythyr cymeradwyaeth sy'n cael ei gyflwyno ac nid llythyr aelodaeth. Dylid hefyd cael caniatâd y Cwrdd Eglwys cyn derbyn aelodau o eglwysi eraill heb lythyr.

Wrth y Bwrdd Cymun dyweded y gweinidog:

Annwyl frodyr a chwiorydd: yn enw ein Harglwydd Iesu Grist derbyniwn E… i gyfamod â ni trwy lythyr cymeradwyaeth.

Darllener y llythyr/au cymeradwyaeth, a dyweder:

Bu ein cyfeillion yn aelodau rheolaidd yn eu heglwysi, a heddiw maent yn cyfamodi â ni i dderbyn braint a chyfrifoldeb aelodaeth o'r eglwys hon. Trwy'r weithred hon y maent yn cadarnhau o'r newydd eu haddewid i ufuddhau i Dduw a rhodio yn ôl ei Air.

Neu, gellir defnyddio'r ffurf hon pan fo aelodau heb lythyrau cymeradwyaeth:

Yn enw ein Harglwydd Iesu Grist ac yn unol â phenderfyniad y Cwrdd Eglwys derbyniwn E… i gyfamod â ni yn yr eglwys hon.

Y mae ein cyfeillion yn cyfamodi â ni i dderbyn braint a chyfrifoldeb aelodaeth o'r eglwys hon a thrwy'r weithred hon y maent yn cadarnhau o'r newydd eu haddewid i ufuddhau i Dduw a rhodio yn ôl ei Air.

Gofynner i'r sawl sy'n cael eu derbyn i ddod ymlaen ac i'r gynulleidfa godi. Yna dywed y gweinidog, gan estyn deheulaw cymdeithas:

Yn enw ein Harglwydd Iesu Grist derbyniaf a chroesawaf di i gymdeithas yr eglwys hon, ac fel arwydd o hyn estynnaf i ti ddeheulaw cymdeithas.

Neu, gofynner i'r sawl a dderbynnir i godi a dyweder:

Yn enw ein Harglwydd Iesu Grist derbyniaf a chroesawaf di i gymdeithas yr eglwys hon, ac fel arwydd o hyn gofynnaf i chi fel cynulleidfa godi.

Bydded i Dduw tangnefedd, yr hwn a ddug yn ôl oddi wrth y meirw ein Harglwydd Iesu, Bugail mawr y defaid, trwy waed y cyfamod tragwyddol, eich cymhwyso â phob daioni, er mwyn ichwi wneud ei ewyllys ef; a bydded iddo lunio ynom yr hyn sydd gymeradwy ganddo, trwy Iesu Grist, i'r hwn y byddo'r gogoniant byth bythoedd! Amen.

Hebreaid 13:20–21

Yma gellir gofyn i'r gynulleidfa gydadrodd y Cyfamod Eglwys; er enghraifft, y cyfamod canlynol:

Cyflwynwn ein hunain i'r Arglwydd,
gan gyfamodi yn ei bresenoldeb i gydgerdded yn ôl ei Air.
Cynorthwyed Duw ni. Amen.

Yna gweinyddir y Cymundeb